



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

15 Chwefror 2018

9:30 am – 12:30 pm

Optic, Llanelwy

Yn bresennol: Y Cynghorydd Gareth Roberts (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Cynghorydd Llinos Medi Huws, Morwena Edwards, Dave Worrall, Neil Ayling, Cynghorydd Christine Jones, Wendy Jones, Rob Smith, Debbie Shaffer, Caroline Turner, Nicola Stubbins, Charlotte Walton, Audrey Somerton-Edwards, Morag Olsen, Margaret Hanson, Wayne Jones yn dirprwyo i Richard Debicki, Ruth Simmons

Ymddiheuriadau: Vin West, Mary Wimbury, Jenny Williams, Richard Debicki
Cynghorydd Joan Lowe, Lynda Colwell, Teresa Owen,
Cynghorydd Liz Roberts, Andrew Long, Cynghorydd Bobby Feeley

Hefyd yn bresennol: Bethan Jones, Cyfarwyddwr Rhanbarth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd Y Cynghorydd Roberts bawb i'r cyfarfod, gwnaethpwyd cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.	
2.	<u>Nodiadau a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf – Ionawr 2018</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr fel cofnod cywir. Camau gweithredu sy'n aros yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Rhoddodd NS ddiweddariad ar gyllidebau cyfun – fel y cytunwyd yn y BPRh diwethaf mae cydweithwyr Cyllid yn mynd rhagddynt gyda'r dull gweithredu y cytunwyd arno. Nodwyd fod cyfarfod rhwng Arweinwyr ac Ysgrifennydd Y Cabinet ar 8 Mawrth lle bydd hyn yn cael ei drafod.• Mae Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Anghenion Poblogaeth wedi ei ddiweddarau ac mae bellach yn mynd drwy brosesau llywodraethu / gwleidyddol Partneriaid.	

	<ul style="list-style-type: none"> • Mynychodd y Cynghorydd Roberts a BJE gyfarfod Gweinidogion ar 24 Ionawr 2018, a rhoddwyd diweddariad ar y cynnydd rydym yn ei wneud. • Roedd trafodaethau yn cynnwys Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC), Cyllidebau Cyfun ac ymgysylltu gyda Fforymau Gwerth Cymdeithasol. 	
3.	<p><u>Papur y trydydd Sector – Adborth o drafodaethau yng nghyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru– Dave Worrall a Rob Smith</u></p> <p>Diolchodd DW i Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru am gyfle i drafod y papur ymhellach. Mynychodd DW gyfarfod yn Llandrindod, lle bu rhanbarthau yn rhannu pa weithgareddau oedd yn cael eu cynnal yn eu hardaloedd, roedd hyn yn amrywio mewn ardaloedd daearyddol. Mae'r cysyniad o gwrdd y darparwr yn ddiddorol a byddai'n gyfle i siarad â chomisïynwyr ar gyfer y Trydydd Sector. Yn dilyn trafodaethau yng Ngrŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru cytunwyd y byddai cynnal y digwyddiadau darparwr ym mhob Ardal neu hyd yn oed ardaloedd Awdurdod Lleol yn ddefnyddiol. Mae Cadeirydd Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru yn gefnogol i hyn. Bydd DW yn darparu diweddariad ar ôl ei gyfarfod gyda Phrif Swyddogion a Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol Gogledd Cymru ar 19 Mawrth 2018.</p>	DW i ddod â phapur pellach i'r BPRh
4.	<p><u>Strategaeth derfynol Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru - Jenny Williams / Charlotte Walton</u></p> <p>Cyflwynodd CW yr adroddiad a'r strategaeth ddrafft derfynol ar ran JW. Cyn hir bydd CW yn Gadeirydd cyfarfod y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol am gyfnod o 12 mis. Eglurodd CW fod datblygu'r strategaeth hon wedi bod yn ddarn sylweddol o waith a bod y drafft wedi ei ymgynghori arno. Mae adborth o'r ymgynghoriad wedi ei ymgorffori i'r drafft terfynol ac mae Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru wedi cymeradwyo'r strategaeth. Y bwriad yw bod y strategaeth yn ddogfen fyw a'r maes allweddol yw symud ymlaen â'r cynllun gweithredu.</p> <p>Awgrymwyd y gallai teitl y strategaeth fod yn fwy amlwg er mwyn nodi ei fod yn perthyn i Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol. Gofynnodd DW pwysu sy'n cynrychioli'r Trydydd Sector ar Fwrdd Gweithlu Gogledd Cymru.</p> <p>Nododd MH nad yw'r strategaeth yn adlewyrchu recriwtio graddedigion BIPBC ond efallai bod hyn yn rhywbeth mwy perthnasol i waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn hytrach nac yma. Ychwanegodd LM ei fod yn bwysig bod iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hystyried gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan fod cyllid ar gael ar gyfer sgiliau. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn pwysleisio pwysigrwydd economi gofal cymdeithasol ac iechyd.</p>	<p>BJE i gynghori.</p> <p>Cynghorydd GW i ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd Uchelgais</p>

	<p>MO – soniodd y gallai terminoleg fod yn gamarweiniol yn arbennig yn yr adran ynglŷn a nyrsys mewn cartrefi gofal. Ni all iechyd ddarparu cyfleusterau cartref gofal. Awgrymodd BJE ail eirio'r adran hon er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn dweud beth rydym yn ei olygu.</p> <p>Pwysleisiodd ME y pwynt nad yw byth yn sicr wrth gynllunio ar gyfer nyrsys os ydym yn gwneud digon i gynnwys gofynion y sector gofal. Mae angen i ni hefyd ddylanwadau gallu cynyddu'r nifer o leoedd hyfforddi ar gyfer y Gogledd.</p> <p>O ran cynllunio'r gweithlu a llwybrau gyrfaol, gofynnodd MO os oedd hyn yn cael ei ddatblygu'n ddigonol ar draws y sectorau. Mae'r BI wedi cychwyn trafodaethau yn lleol am gyllido mwy o leoedd hyfforddi nyrsys ac mae dull o weithio mwy strategol o ran recriwtio gyda chysylltiadau â phrifysgolion yn cael ei symud yn ei flaen. Cyfeirir at Therapi Galwedigaethol o fewn y strategaeth, ond ymddengys nad yw hyn yn cynnwys dull gweithredu'r BI. Mae'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y strategaeth wedi ei darparu gan y BI, dydy hyn ddim myn newid y cynllun gweithredu arfaethedig.</p> <p>Gofynnodd CW pe gallai'r Bwrdd gymeradwyo'r strategaeth, gyda'r bwriad o adolygu peth o'r iaith wedi hynny. Cytunodd aelodau'r Bwrdd i gymeradwyo'r strategaeth.</p>	<p>Economaidd Gogledd Cymru</p>
<p>5.</p>	<p><u>Diweddariad ar waith Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru - Morwena Edwards</u></p> <p>Diolchodd ME i Maria Bell a John Williams am y gwaith a wnaed. Mae'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn cwrdd yn rheolaidd, mae llawer o waith wedi ei wneud a rhaid cydnabod mai dim ond dau unigolyn sydd yn y tîm comisiynu rhanbarthol, sy'n cynnwys maes eang o waith.</p> <p>Prif ffocws heddiw yw rhannu'r rhaglen waith sydd wedi ei chwblhau a'r rhaglen ar gyfer 2017/18.</p> <p>Gofynnodd MO a ddylid cynnal digwyddiad pum niwrnod mewn ystafell er mwyn deall pa newidiadau sydd wedi digwydd ar ôl y digwyddiad.</p> <p>Dywedodd ME bod y gwaith pum niwrnod mewn ystafell yn ymwneud â'r rhaglen hon, gyda gwaith sylweddol wedi ei wneud i symud ymlaen. Gweithredu'r camau a gytunwyd arnynt yn dilyn y digwyddiad pum niwrnod mewn ystafell yw'r allwedd, yn hytrach nac ail gynnal y digwyddiad. Newidiadau mewn diwylliant a chanolbwyntio ar 'Beth sy'n Bwysig' sydd angen eu hymgorffori er mwyn gwneud gwahaniaeth.</p>	

	<p>Ychwanegodd RS bod angen i ni adlewyrchu ar waith pum niwrnod ac mae cyflwyniadau ar gynnydd wedi eu trefnu ar gyfer cyfarfod BPRhGC.</p> <p>Dywedodd ME wrth y Bwrdd fod tueddiad i aelodau'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ddirprwyo presenoldeb i lefel is, fodd bynnag er mwyn mynd i'r afael â'r rhaglen a gwneud penderfyniadau mae angen cynrychiolaeth strategol ar y Bwrdd.</p>	<p>ME i adolygu aelodaeth cyfarfod BCRh.</p>
<p>6.</p>	<p><u>Adroddiad ar y berthynas rhwng Bwrdd Rhan 9 a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus – y Cynghorydd Gareth Roberts</u></p> <p>Cyflwynodd GR y papur ar gynnig sut gall Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru gydweithio. Mae Cadeiryddion y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i fod i fynyachu cyfarfodydd BPRhGC ym mis Mawrth ac Ebrill er mwyn cyflwyno ar eu blaenoriaethau.</p> <p>Nododd LM ei bod yn ffodus o fod yn rhan o bethau yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol ac argymhellodd fod y Papur yn mynd i bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru ac i GR gael trafodaethau pellach gyda chadeiryddion y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.</p> <p>Nododd MH bod angen egluro'r berthynas rhwng BPRhGC a'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ac roedd yn meddwl tybed a fyddai LIC yn nodi eu disgwyliadau.</p> <p>Dydy LM ddim yn meddwl y bydd LIC yn arwain y model, os ydym yn glir ar beth ydym am i'r model fod, dylem fod yn argymhell y dull gweithredu fel ein bod yn parhau i wella.</p> <p>Roedd GR yn teimlo mai sgwrs ddwy ffordd yw'r neges gan y Gweinidog fel y dull a ffeirir. Awgrymwyd bod angen i'r papur fynd at Gadeiryddion y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a bydd GR yn ysgrifennu at eu Cadeiryddion er mwyn cwrdd gyda nhw fel bo'r angen i drafod ymhellach.</p>	<p>GR i anfon papur at Gadeiryddion BGC a chyfarfod y Cadeiryddion fel bo'r angen.</p>
<p>7.</p>	<p><u>Diweddariadau ffrydiau gwaith blaenoriaeth BPRh</u></p> <ul style="list-style-type: none"> - <u>Plant gydag Anghenion Cymhleth – Bethan Jones, Prif Gyfarwyddwr</u> <p>Rhoddodd BJ adroddiad diweddar er mwyn hysbysu BPRhGC o waith y Bwrdd Trawsnewid Plant. Cytunwyd ar y chwe blaenoriaeth, ac mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer pob maes gwaith. Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar yr adnoddau. Cynigiodd BJ bod adroddiad diweddar chwarterol yn cael ei ddarparu i'r BPRhGC o fis Ebrill ymlaen, yn canolbwyntio ar y</p>	<p>Papur BJ yn ôl i BPRh Mai 2018</p>

	<p>blaenoriaethau. Diolchodd BJ i bartneriaid am eu cyfraniad a'i fod yn ddefnyddiol bellach i gael blaenoriaethau ar y cyd.</p> <p>Soniodd NA am y diffyg darpariaeth ar gyfer plant dan ofal gydag anghenion cymhleth a gofynnodd sut mae'r gwaith hwn yn cysylltu gyda gwaith arfaethedig yr Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol.</p> <p>Mae BJ yn teimlo y dylai hyn hysbysu gwaith y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol.</p> <p>- <u>Pobl Hŷn gydag anghenion cymhleth gan gynnwys dementia - Rob Smith / Morwena Edwards, Cyfarwyddwyr Arweiniol</u></p> <p>Cyflwynodd RS y papur wedi ei ddiweddarau. Mae cynnydd yn cael ei wneud i ddod â dwy ffrwd ynghyd i gyflawni'r ffrwd waith hon. Adroddiad mwy cynhwysfawr i ddod yn ôl o flaen BPRhGC ym mis Mehefin/ Gorffennaf, er mwyn cytuno ar y camau nesaf.</p> <p>Ychwanegodd ME fod y gweithdy a gynhaliwyd yn bositif iawn. Mae'r BI wedi gwneud cymaint o waith ar eu strategaeth nes y teimlid nad oedd angen edrych ar hwn eto. Y gwaith felly fydd craffu ar a monitro'r gwaith da wrth symud ymlaen, a rhannu arfer da. Fodd bynnag, cydnabu fod angen cymorth o ran adnoddau a rheoli prosiect er mwyn i'r ffrwd waith hon lwyddo. Ar y pwynt o newid diwylliant, mae ME wedi cael sgwrs gychwynnol gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor i weld pa ddulliau fyddai'n effeithiol i'w defnyddio.</p> <p>Roedd MH yn teimlo y gallai fod angen tynnu ffrydiau gwaith sefydledig i'r darn hwn o waith a bod angen i'r ffocws fod yn ehangach ac yn dylanwadu ar agendau. Angen i bartneriaid ymrwymo i yrru hyn ymlaen ond mae'n ehangach nac iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Nododd NS gan fod BPRhGC yn creu ffrydiau gwaith ychwanegol, rhaid i ni ystyried adnoddau a chysondeb. Mae nifer o ffrydiau gwaith a gomisiynwyd gan BPRhGC sydd angen adnoddau, a rhaid i ni gymryd ymagwedd gyson at y rhain.</p> <p>Awgrymodd ME ein bod yn crynhoi rhestr o'r ffrydiau gwaith sydd yn eistedd o dan y Bwrdd hwn ac yn nodi sut mae'r rhain yn derbyn adnoddau ar hyn o bryd, gan ddod a hyn yn ôl i BPRhGC.</p> <p>Roedd GR yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol deall y cyd-destun o ran darparu a gofynnodd i'r Grŵp Arweinyddiaeth ddatblygu'r wybodaeth yma am drafodaeth bellach gyda GPRhGC.</p> <p><u>Gofalwyr gan gynnwys Gofalwyr Ifanc - Bethan Jones Edwards / Morwena Edwards</u></p>	<p>Adroddiad wedi ei ddiweddar u Mehefin / Gorffennaf – RS</p>
--	---	--

	<p>Darparodd BJE ddiweddariad ar waith hyd yma, sydd wedi bod yn edrych drwy lygaid Gofalwyr a chanolbwyntio ar beth sy'n bwysig iddyn nhw. Gan ddefnyddio negeseuon gan Anghenion Poblogaeth, casglwyd tystiolaeth ac edrychwyd ar ganfyddiadau gan bartneriaid a straeon Gofalwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fapio gwasanaethau; mae hwn wedi bod yn ddarn mawr o waith, mwy nag a ragwelwyd yn y dechrau. Rydym nawr yn gwirio gwybodaeth er mwyn cwblhau mapio'r adnoddau. Mae dau weithdy wedi eu cynnal, ac un arall ar y gweill ar gyfer mis Mawrth lle rydym yn dod â grwpiau strategol, gweithredol, gofalwyr, a grwpiau darparu at ei gilydd. Gofynnwyd i BPRhGC gymeradwyo estyniad amser i gwblhau'r gwaith hwn, hyd at ddiwedd Mehefin 2018. Cytunodd aelodau BPRhGC i hyn. O ran cyllido'r gallu i arwain ar y ffrwd waith hon, bydd partneriaid yn edrych ar hyn fel y trafodwyd uchod.</p>	
<p>8.</p>	<p><u>Adroddiad Diweddarau'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig – Neil Ayling</u></p> <p>Dywedodd NA fod cynnydd da wedi ei wneud ers cychwyn ym mis Mehefin 2017 gyda chyllid y Gronfa Gofal Canolradd (ICF) wedi ei ddarparu am 3 blynedd i sefydlu a darparu'r gwasanaeth hwn. Mae arbenigedd defnyddwyr gwasanaeth wedi helpu i symud y gwaith yn ei flaen ac mae digwyddiad llwybr llwyddiannus wedi ei gynnal, ac un arall ar y gweill ar gyfer 7 Mawrth. Mae strwythur y gwasanaeth wedi ei ragnodi gan LIC gyda rhai staff yn cael eu gwesteio gan y BI ac eraill gan Gyngor Sir y Fflint fel partner gwestai. Mae problemau o ran recriwtio; mae heriau gan y BI o ran recriwtio i swyddi arbenigol, angen penderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid os na lwyddir i recriwtio i swyddi. Mae cynhadledd ar y gweill ym mis Ebrill ac rydym yn mapio gofynion hyfforddiant ar hyn o bryd. Nid yw'r system TG yn ateb y gofyn ac mae'n bosib y bydd angen i ni gyllido datblygiad system arall. Diolchodd NA i gydweithwyr am eu mewnbwn i ddatblygiad y gwasanaeth hwn.</p> <p>Gofynnodd MH a ydym wedi meintioli'r effaith ar wasanaethau eraill ac ar y galw. Cadarnhaodd NA bod y digwyddiadau llwybrau yn adolygu effeithiau ar alw mewn meysydd eraill.</p> <p>Mynegodd LM ei phryder am y sefyllfa o ran TG a mynegwyd pryder hefyd am faterion gyda System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Eglurodd NA bod y broblem yn ymwneud â SYML, sef cronfa ddata sydd wedi ei datblygu yn genedlaethol.</p>	
<p>9.</p>	<p><u>Diweddariad ar y Gronfa Gofal Canolradd – Nicola Stubbins</u></p> <p>Rhoddodd GR wybod i BPRhGC nad yw'n gallu arwyddo adroddiad Chwarter 3 hyd yma, achos does dim sicrwydd pendant ar hyn o bryd sut y bydd y tanwariant yn cael ei ddefnyddio a does dim llawer o amser i wario'r dyraniad hwn. Mae gan BPRh gyfrifoldeb i wario'r</p>	

	<p>arian hwn, felly bydd CR yn cwrdd ar frys gydag arweinwyr gydag arweinwyr y Gronfa Gofal Canolradd er mwyn trafod y sefyllfa. Mae GR yn arbennig o anhapus ein bod wedi tanwario mor agos i ddiwedd y flwyddyn gan na ellir cario cyllid drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwahoddodd GR sylwadau pellach gan NS.</p> <p>Cadarnhaodd NS na allai gynghori'r Cadeirydd i arwyddo adroddiad Chwarter 3 diwedd Rhagfyr, gan nad oedd ganddynt y sicrwydd priodol. Mae tair elfen WCCIS, IAS, ac OP/LD. Wedi adolygu'r wybodaeth amrywiol a'u croesgyfeirio, ymddengys bod anghysondebau. Deallir y byddai gwariant ICF yn uwch yn Chwarter 3, fodd bynnag, nid yw NS wedi derbyn sicrwydd ysgrifenedig gan bartneriaid y bydd y gwariant yn unol â dyraniadau.</p> <p>Wrth grynhoi dywedodd GR y bydd angen sicrwydd ar y Bwrdd ac os yw aelodau'r Bwrdd yn gytûn, y bydd yn cwrdd ag arweinwyr ICF. Gofynnodd LM pe gellid rhoi gwybod i'r Bwrdd am ganlyniad cyfarfod yr ICF.</p> <p>Eglurodd NS bod yn rhaid cael adnodd cyfrifyddiaeth rhanbarthol ar gyfer gwaith y cyllidebau cyfun. Ar hyn o bryd mae cyllid ICF yn mynd at Gyngor Sir y Fflint a'r BI i gyflawni eu rolau ariannol o ran yr ICF. Bydd NS yn trefnu cais o ran sut gallai adnodd cyfrifyddiaeth ranbarthol weithio i gynnwys Cyllidebau Cyfun ac ICF.</p>	
<p>10.</p>	<p><u>Adroddiad cylch gorchwyl – Bethan Jones Edwards</u></p> <p>Amlygodd GR y byddai rhai rhannau o'r adroddiad hwn yn achosi gwrthdaro buddiannau i DS a gwahoddodd DS i ystyried gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth hon.</p> <p>Cyfnod y Cadeirydd – mae MH wedi cytuno i'r cyfnod arfaethedig o 2 flynedd a gymeradwywyd gan BPRhGC yn ei gyfarfod diwethaf. Bydd GR yn parhau fel Cadeirydd hyd at fis Mawrth 2019 a MH yn camu i'r rôl ym mis Ebrill 2019.</p> <p>Roedd DW yn teimlo na fyddai cynrychiolwyr y Trydydd Sector yn cael cyfle i Gadeirio pan fyddent yn cymryd rôl yr Is-Gadeirydd ymlaen.</p> <p><u>Bydd BJE yn edrych eto ar ffyrdd o ddatrys y broblem hon.</u></p> <p><u>Cynrychiolwyr Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr</u> Roedd BPRhGC wedi gofyn i Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru drafod hyn. Doedd dim gwrthwynebiad i gynyddu'r aelodaeth i 2 aelod yr un a doedd dim gwrthwynebiad i gyflwyno proses dreigl o ran swyddog newydd. Cytunodd BPRhGC â'r argymhelliad hwn hefyd. Nododd BJE y bydd angen i ni fynd allan yn syth ar gyfer datganiadau o ddiddordeb a chytunodd aelodau i hyn.</p> <p>Gadawodd DS y cyfarfod oherwydd gwrthdaro buddiannau gyda'r drafodaeth nesaf. Trafododd Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru</p>	<p>BJE i edrych ar ffyrdd o ddatrys</p>

	<p>dâl cydnabyddiaeth ar gyfer y cynrychiolydd defnyddiwr gwasanaeth a gofalwyr, a cheisiwyd cyngor gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Trafododd aelodau'r bwrdd yr argymhellion a wnaed gan Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru a chytunwyd creu grŵp tasg a gorffen i edrych ar hyn ymhellach ac i edrych hefyd ar opsiynau eraill.</p> <p>Cylch gorchwyl BPRhGC – BJE i adolygu'r cylch gorchwyl yn seiliedig ar gytundeb gan y Bwrdd ac ychwanegu Cadeirydd Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru at yr aelodaeth.</p>	Cylch gorchwyl diwygiedig – BJE
11.	<p><u>Cytuno ar 5 neges allweddol ar gyfer y diweddariad Cyfathrebu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunodd y Bwrdd ar y negeseuon allweddol. 	
12.	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p><u>Eitemau er gwybodaeth:</u> Mae GR wedi ysgrifennu at Brif Swyddog Gweithredol BIPBC o ran arian pwysau'r gaeaf er mwyn mynegi ei fod yn anfodlon na chafodd y mater hwn ei drafod mewn partneriaeth. Darllenodd BJE yr ymateb e-bost gan y Bl. Diolchodd LM i GR am ysgrifennu at y Bwrdd lechyd gan fod gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi bod o dan bwysau a byddent wedi elwa o dderbyn cyllid ychwanegol. Er eglurder, ychwanegodd MH nad chyflwynwyd cais am yr arian, ond yn hytrach cafodd yr arian ei ryddhau. Mae'r cyllid wedi mynd tuag at gyflawni cynllun y gaeaf ac i wneud mwy o beth rydym eisoes yn ei wneud.</p>	
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>Dydd Iau 22 Mawrth 2018 Optic, Llanelwy, 9:00 - 1:00pm</p> <p>Sylwch ein bod yn cychwyn yn gynt oherwydd y gweithdy</p>	